**EITEM AR YR AGENDA: 14**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**22 Medi 2014**

**PAPUR GWYN DATGANOLI, DEMOCRATIAETH A CHYFLAWNI – DIWYGIO LLYWODRAETH LEOL**

**Adroddiad gan Simon Smith, Prif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Gwahoddir Aelodau i gymeradwyo ymateb yr Awdurdod i Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru ar Ddatganoli, Democratiaeth a Chyflawni – Diwygio Llywodraeth Leol.

## Cefndir

2 Yn dilyn yr Adroddiad Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus (Comisiwn Williams) a wnaeth argymhellion am ddyfodol darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Papur Gwyn.

3 Y Papur Gwyn 'Diwygio Llywodraeth Leol' yw datganiad o fwriad Llywodraeth Cymru ynglŷn a dyfodol Llywodraeth Leol. Mae'r Papur hefyd yn ymateb i rai o ganfyddiadau'r Comisiwn ynglŷn â phartneriaeth a chydweithredu, ac mae'n mynd i'r afael ag argymhellion i awdurdodau tân ac achub ynghylch craffu a llywodraethu.

## Gwybodaeth

4 Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghoriad ar 8 Gorffennaf 2014 a rhaid i unrhyw ymatebion gael eu cyflwyno erbyn 1 Hydref 2014.

5 Mae Cadeiryddion, Dirprwy Gadeiryddion, Prif Swyddogion Tân a Dirprwy Brif Swyddogion Tân y tri awdurdod tân ac achub yng Nghymru wedi trafod y Papur Gwyn ac ynghlwm yn atodiad 1 mae ymateb awgrymedig i'r cwestiynau ymgynghoriad.

**Argymhelliad**

6 Gofynnir i Aelodau gymeradwyo'r ymateb i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

## Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Y Cynghorydd
M. Lloyd Davies, Cadeirydd

Awdurdod Tân ac Achub
Gogledd Cymru

e-bost / rhif ffôn:
01745 535253

Pencadlys Gwasanaeth Tân
ac Achub Gogledd Cymru,
Ffordd Salesbury,
Parc Busnes Llanelwy,
Sir Ddinbych LL17 0JJ

**Dyfodol Llywodraeth Leol – beth ddylem ei ddisgwyl gan Awdurdodau Lleol?**

| | |
|---|---|
| **Cw.1** | Sut gall Awdurdodau Lleol ymgysylltu'n fwy effeithiol â'u cymunedau ynghylch heriau cynnal gwasanaethau fel y maent yn cael eu darparu ar hyn o bryd a'r angen am newid? |

Mae'r her o gael llai o gyllid i wasanaethau cyhoeddus ar adeg o alw a disgwyliadau cynyddol ymysg y cyhoedd wedi ei gofnodi lawer gwaith a'i dderbyn yn eang, ynghyd â pha mor ganolog yw rheoli'r galw fel ffordd o ymateb i'r her honno yn y dyfodol.

Fodd bynnag, mae llawer o awdurdodau wedi cael trafferth cysegru digon o amser i leihau'r galw oherwydd bod y gwasanaethau y mae gofyn iddynt eu darparu mor niferus a bod maint uchelgais Llywodraeth Cymru mor fawr. Nid yw mwyach yn fforddiadwy i ddarparu'r ystod lawn o wasanaethau cyhoeddus, gan geisio bod yn bopeth i bawb. At hynny, mae'n amheus a ddylai ceisio gwneud hynny, sef tynnu'r cyfrifoldeb oddi ar unigolion i benderfynu ar eu gweithredoedd eu hunain a chanlyniadau'r gweithredoedd hynny, fod yn nod i'r llywodraeth, boed ganolog neu leol.

Rhaid i'r cymorth ganolbwyntio ar anelu adnoddau at aelodau o'r gymuned sydd fwyaf agored i niwed a sicrhau bod cymunedau'r dyfodol yn meddu ar yr wybodaeth a'r cyfleoedd i'w galluogi i amddifyn eu lles eu hunain heb ddibynnu cymaint ar wasanaethau cyhoeddus.

Mae'r Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru wedi dangos bod modd

lleihau lefel y galw am wasanaethau ymatebol drwy ganolbwyntio ar uchelgeision syml a gweithio ar draws ffiniau sefydliadau. Er enghraifft, dros y degawd diwethaf maent wedi gweld nifer y tanau yng Nghymru yn gostwng 50% (o 26,335 i 13,162) a nifer y marwolaethau oherwydd tanau damweiniol yn gostwng 21% (o 19 i 15).

Rydym yn credu mai dim ond drwy fuddsoddi yn y ffordd yma o fynd ynglŷn â phethau, ac ailfuddsoddi'r arbedion a ddaw o ganlyniad o lwyddiant y gwaith ataliol, y gellir creu model cynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

I gloi, rydym yn credu mai'r hyn sy'n ganolog i lwyddiant agenda atal tanau'r Awdurdod yw'r ffaith fod ei ffiniau'n dilyn yr un ffiniau â phartneriaid pwysig eraill megis yr heddlu, y bwrdd iechyd a'r awdurdodau lleol, ac ni fyddem yn dymuno gweld hyn yn cael ei beryglu.

| | |
|---|---|
| **Cw.2** | Beth arall y gallai Llywodraeth Cymru ei wneud i helpu Awdurdodau gyda'r ddeialog hon i wella eu perfformiad o ran darparu gwasanaethau â blaenoriaeth? |
| | |

| | |
|---|---|
| **Cw.3** | Pa awgrymiadau penodol sydd gennych ar gyfer lleihau a symleiddio gweinyddu a fyddai'n rhyddhau amser ac adnoddau i ddarparu a gwella gwasanaethau? |
| | |

**Diwygio Llywodraeth Leol – Cryfhau democratiaeth, cynnal a gwella gwasanaethau**

| | |
|---|---|
| **Cw.4** | Pa newidiadau penodol y dylid eu gwneud i gyfansoddiad presennol Awdurdodau Lleol i sicrhau eu bod yn agored ac yn dryloyw, a bod atebolrwydd yn eglur? |

| Cw.5 | Sut dylai'r rhaglen cefnogi gwaith craffu gael ei llunio i gefnogi gwelliannau o ran effeithiolrwydd gwaith craffu? |
|---|---|
| Drwy: a) bod yn glir beth yw swyddogaethau craffu; a b) craffu dim ond pan fo hynny'n gallu arwain at les amlwg; dylai fod modd osgoi adeiladu haen ar ben haen o drefniadau gweinyddol sydd â fawr ddim i'w ddangos o ran gwelliannau. | |

| Cw.6 | Ym mha ffyrdd eraill y dylid cryfhau gwaith craffu er mwyn gwella gwasanaethau? |
|---|---|
| | |

**Craffu a Llywodraethu – Awdurdodau Tân ac Achub**

| Cw.7 | Beth yw'r ffordd orau o sicrhau llywodraethu a chraffu ar benderfyniadau gwasanaeth ac ariannol strategol Awdurdodau Tân ac Achub? |
|---|---|
| Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn falch o weld bod ei berfformiad uchel a'i welliant parhaus yn cael ei gydnabod yn y Papur Gwyn. Oherwydd yr union drefniadau llywodraethu presennol, a gyflwynwyd yn 1996, y mae'r tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru wedi gallu canolbwyntio eu hymdrechion ar waith ataliol. Mae hyn yn ei dro wedi arwain at welliannau sylweddol mewn perthynas â gostwng nifer y tanau a nifer y marwolaethau oherwydd tanau, gan berfformio'n well na Lloegr a'r Alban. | |

| |
|---|
| O ganlyniad i hyn bu modd rhyddhau adnoddau o’r gwaith ymateb brys i wella diogelwch y cyhoedd yng Nghymru drwy waith ataliol. Ni ellir ond amcangyfrif yr arbediad i’r pwrs cyhoeddus yn ehangach o gael llai o danau, ond er enghraifft, derbynnir yn gyffredinol mai tua £1.5 miliwn yw cost economaidd un farwolaeth oherwydd tân.<br><br>Felly nid yw Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn derbyn bod angen ad-drefnu Awdurdodau Tân yng Nghymru fel rhan o ailstrwythuro Awdurdodau Lleol yn ehangach. Mae’r ‘angen’, chwedl hwythau, fel petai wedi ei greu ar sail adroddiad i’r Gweinidog ar y thema Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru 2013, ac fel yr ydym wedi dadlau sawl tro, adroddiad diffygiol yw hwn, heb unrhyw dystiolaeth i gefnogi unrhyw argymhellion ynghylch materion strwythur a llywodraethiad (argymhellion 8 i 12).<br><br>Ni chyfarfu’r awdur gyda chynrychiolwyr yr un o’r tri Awdurdod Tân ac Achub nac ychwaith weld yr un o gyfarfodydd yr Awdurdodau wrth ei waith. Yn rhyfedd, mae’r adroddiad yn methu dangos o ble y daeth y casgliadau hyn. Er enghraifft, mae’r adroddiad yn cyfeirio at ddiffyg tryloywder tybiedig mewn perthynas â phenderfyniadau cyllido, ac mae hyn yn bendant yn anghywir. Mae penderfyniadau ariannol yr Awdurdod yn cael eu ffurfio drwy gyfres o bapurau a gyflwynir ac a drafodir yng nghyfarfodydd cyhoeddus y Panel Gweithredol a’r Awdurdod hyd oni fydd cytundeb ynglŷn â pha bwysau ariannol a fodlonir. Yn y pedair blynedd ddiwethaf, mae hyn yn amlwg wedi canolbwyntio ar benderfyniadau ynglŷn â pha newidiadau a thoriadau a fyddai’n cael eu gwneud, gan alluogi inni wneud gostyngiad o 10% yn ein cyllideb mewn termau real. Mae deialog reolaidd gyda’n hawdurdodau cyfansoddol drwy drysorydd annibynnol wedi sicrhau bod ein cyllideb dros y 18 mlynedd diwethaf wedi adlewyrchu’r cynnydd neu’r gostyngiad yng nghyllid Awdurdodau Lleol.<br><br>Fodd bynnag y mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn wastad yn ceisio gwella ei effeithiolrwydd drwy ei drefniadau llywodraethu, ac er ein bod yn credu y dylai hyn barhau yn gyfrifoldeb i’r aelodau etholedig rydym yn cydnabod y gallai ein system bwyllgorau gyfredol fod wedi dyddio, a byddem yn croesawu’r cyfle i edrych ar opsiynau eraill megis model Cabinet. |

**Llywodraethu Cymunedol**

| | |
|---|---|
| **Cw.8** | Pa awgrymiadau sydd gennych i sicrhau bod gan gymunedau lais effeithiol ym mhenderfyniadau’r Awdurdodau newydd? |

Rydym yn cytuno y dylai cymunedau fod yn gallu cyfrannu’n effeithiol i’r broses o wneud penderfyniadau’r Awdurdod Tân ac Achub. Fodd bynnag, byddai’r awgrym a wneir yn y Papur Gwyn, sef y dylid yn y dyfodol roi’r cyfrifoldeb cyfreithiol i’r Prif Swyddogion Tân anetholedig dros gynllunio, rheoli a darparu Gwasanaeth Tân ac Achub effeithiol, tra bo’r Awdurdod Tân dim ond yn darparu swyddogaeth graffu, yn ymddangos fel petai’n mynd yn groes i’r dyhead hwn.

Mae aelodau'r Awdurdod Tân, a etholwyd yn ddemocrataidd, mewn sefyllfa ardderchog i bledio achos y cymunedau y maent yn eu gwasanaethau. Drwy barhau i fod yn rhan uniongyrchol o'r penderfyniadau ynghylch cynllunio gwelliannau a gosod y gyllideb cyn iddynt gael eu rhoi ar waith gallent barhau i herio a chraffu, a dal Prif Swyddogion Tân i gyfrif. Drwy gyfleu pryderon a syniadau eu cymunedau, gan ddal y cyfrifoldeb ar y cyd â'r swyddogion am gynlluniau'r Awdurdod, a chyfleu'n ôl i'r cyhoedd beth yw'r rhesymwaith a'r cyd-destun pam y gwnaed penderfyniadau am y Gwasanaeth, mae'r aelodau'n parhau'n ganolog yn y gwaith o gyd-lunio gwasanaethau cyhoeddus ac yn yr agweddau atebolrwydd.
Byddai rhoi'r broses o wneud penderfyniadau yn nwylo un unigolyn yn siwr o fygu'r llais cymunedol hwnnw ac mewn gwirionnedd yn llai atebol i'r cyhoedd.

| **Cw.9** | Pa awgrymiadau sydd gennych i sicrhau bod gan gymunedau lais effeithiol ym mhenderfyniadau'r Awdurdodau newydd? |
|---|---|

Mae profiad Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru o ymgynghoriadau yn adlewyrchu problem gyffredin, sef bod aelodau'r cyhoedd yn ymateb gryfaf pan fo'r cynigion yn rhai uniongyrchol ac yn agos at adref, ond yn tueddu i fod yn dawel fel arall. Enghraifft berffaith o adeg pryd y gellid disgwyl yr ymateb yma yw cau gorsaf dân. Hyd yn oed petai'r cynlluniau'n cael eu cefnogi gan ddadl resymegol byddai'n ddiogel tybio y byddai rhywfaint o wrthwynebiad lleol.

Fodd bynnag, yn ôl ein profiad ni mae ymgysylltiad yn gweithio'n dda iawn fel deialog barhaus gyda'n partneriaid a gwahanol rannau o'r gymuned a'u cynrychiolwyr ynglŷn â dyluniad a ffurf darpariaeth. Bu hyn yn gymorth inni er enghraifft i deilwra ein negeseuon tân a'n gwasanaethau i weddu i wahanol rannau o'r gymuned, megis pobl sydd mewn mwy o berygl o gael tân neu wrthdrawiad ar y ffordd. Enghraifft ddiweddar dda yw'r prosiect "Chwyldro", a grewyd ar y cyd â'r heddlu a'r gyrwyr ifanc yr anelir y cymorth atynt. Mae prosiectau ataliol yn llawer mwy llwyddiannus gyda sefydliadau partner sydd â'r wybodaeth a'r mynediad at unigolion sy'n anos eu cyrraedd ac yn rhai yr ydym yn dymuno dylanwadu arnynt a rhoi gwybodaeth iddynt.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wrthi'n cydweithio â'r chwe sir, gwasanaeth yr heddlu a'r bwrdd iechyd prifysgol yng Ngogledd Cymru i ddatblygu dull mwy cyd-gysylltiedig o ymgynghori, a byddem yn croesawu arweiniad pellach ynglŷn â sut i ddatblygu dulliau ymgynghori ystyrlon a chost-effeithiol gyda'n cymunedau.

**Trefniadau Partneriaeth Cenedlaethol**

| Cw.10 | Sut y gallwn ymgysylltu orau gyda Llywodraeth Leol i ddatblygu rhaglen o ddiwygio Llywodraeth Leol? |
|---|---|
| | |

**Sut allwn ni sicrhau bod perfformiad Llywodraeth Leol yn gwella ac yn parhau i wella? - Gwella Perfformiad**

| Cw.11 | Sut allwn ni helpu ac annog Awdurdodau Lleol i fod yn fwy rhagweithiol o ran nodi ac ymateb i faterion darparu neu lywodraethu? |
|---|---|
| | |

| Cw.12 | Beth ddylai'r egwyddorion a'r safonau fod ar gyfer rheoli perfformiad ac adrodd ar berfformiad ar draws Awdurdodau Lleol, a'r sector cyhoeddus ehangach? |
|---|---|
| | |

| Cw.13 | Ym mha ffyrdd y gallem fynd ati'n fwy effeithiol i ddefnyddio'r arian rydym yn ei fuddsoddi i gefnogi gwelliant Awdurdodau Lleol? |
|---|---|

| Cw.14 | A oes gennych awgrymiadau penodol ar gyfer pwerau a chyfrifoldebau y gellid ystyried eu datganoli i'r Awdurdodau newydd? |
|---|---|
| | |

**Ffurf Llywodraeth Leol yn y dyfodol**
**Hwyluso a chymell uno gwirfoddol**

| Cw.15 | A oes angen cynnwys unrhyw beth arall mewn pŵer ar gyfer uno gwirfoddol? |
|---|---|
| | |

| Cw.16 | A yw'ch Awdurdod yn ystyried cyflwyno cynnig ar gyfer uno gwirfoddol? |
|---|---|
| Nac ydyw. Nid yw hyn yn berthnasol i'r Awdurdodau Tân ac Achub. | |

**Wardiau etholiadol Awdurdodau Lleol**

| **Cw.17** | A oes angen i ni wneud unrhyw beth arall i sicrhau y gall Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru roi ystyriaeth effeithiol a gwneud argymhellion ar gyfer trefniadau etholiadol yn yr Awdurdodau arfaethedig? |
|---|---|
| | |

**Taliadau Cydnabyddiaeth i Aelodau Etholedig**

| **Cw.18** | A oes unrhyw beth arall y mae angen i ni ei wneud i sicrhau bod y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn gallu rhoi ystyriaeth effeithiol a gwneud argymhellion ar gyfer taliadau i gynghorwyr yn yr Awdurdodau y bwriedir eu huno ac unrhyw awdurdodau cysgodol a ddaw cyn hynny? |
|---|---|
| A chymryd y byddai'r uno'n mynd rhagddo, byddem yn hoffi gweld y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn dechrau ar ei waith yn gynnar er mwyn iddo allu cyd-redeg â'r gwaith o gyflwyno'r Awdurdodau newydd. Drwy hynny, byddai gwell dealltwriaeth o lwyth gwaith a chyfrifoldebau trymach cynghorwyr yr Awdurdodau newydd hynny.<br><br>Byddem hefyd yn dadlau dros greu cysylltiadau agosach rhwng perfformiad a thaliadau cydnabyddiaeth. | |

**Gwaredu eiddo ac asedau**

| **Cw.19** | Ydych chi'n cytuno y bydd y pŵer arfaethedig i Weinidogion Cymru yn ddigonol ar gyfer gwaredu eiddo ac asedau? Os nad ydych yn cytuno y bydd y pŵer arfaethedig yn ddigonol, pa broblemau penodol ydych chi'n eu rhag-weld? |
|---|---|
| | |

| Cw.20 | Pa fath o gymorth neu gyfarwyddyd y gallai fod eu hangen ar Awdurdodau Lleol? |
| --- | --- |
| | |

**Cydweithredu, cydweithio a pharatoi cyn uno**

| Cw.21 | A oes unrhyw beth arall y dylid ei ragnodi i gydbwyllgorau pontio eu gwneud i baratoi ar gyfer uno eu hawdurdodau? |
| --- | --- |
| | |

| Cw.22 | Pa bwerau eraill y gallai fod eu hangen ar Weinidogion Cymru i atal ymddygiad niweidiol? |
| --- | --- |
| | |

**Materion staffio**

| Cw.23 | Beth ydych chi'n credu ddylai fod yn rôl a chyfrifoldebau i'r Comisiwn Staff? |
| --- | --- |
| Nid oes gennym unrhyw sylwadau penodol i'w gwneud ond byddem yn pwysleisio bod cyflog ac amodau gwasanaeth holl aelodau awdurdodau tân ac achub yn cael eu penderfynu ar y cyd ar lefel y Deyrnas Unedig a rhaid cymryd hyn i ystyriaeth. | |

| Cw.24 | A oes unrhyw beth arall y mae angen ei wneud i baratoi ar gyfer uno Awdurdodau Lleol? |
|---|---|
| | |

**Cyllid Llywodraeth Leol – Treth Gyngor**

| Cw.25 | Beth fyddai'r ffordd decaf o godi refeniw ar gyfer gwasanaethau lleol? |
|---|---|
| | |

**Materion eraill**

| Cw.26 | Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodedig. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael yn benodol â nhw, gadewch inni wybod trwy ddefnyddio'r gofod isod: |
|---|---|
| | |

Mae ymatebion i ymgynghoriadau weithiau yn cael eu cyhoeddi – ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Ticiwch y blwch yma pe bai'n well gennych gadw eich ymateb yn gyfrinachol: ☐